

20 Tachwedd 2014

Ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch adrodd rheoleiddiol
Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA

I'r sawl a fynno wybod,

Ymgynghoriad ynghylch Adrodd Rheoleiddiol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn croesawu'r cyfle i gyflwyno sylwadau ar y cynigion yn ymwneud ag Adrodd Rheoleiddiol ar gyfer yr adolygiad nesaf ar brisiau, 2015-2020.

Yn yr e-bost a anfonwyd gennym ar 7 Tachwedd 2014 esboniwyd y byddai ein sylwadau'n cael eu hanfon y tu allan i'ch cyfnod ymgynghori, ond gofynnwyd iddynt gael eu hystyried fel rhan o'ch adolygiad serch hynny.

Yn gyffredinol, mae CNC yn cefnogi'r cynigion ar gyfer cael adroddiad rheoleiddiol blynyddol. Cytunwn y dylai'r adroddiad gael ei seilio ar wybodaeth reolaidd, gyson, wedi'i harchwilio, a fydd yn dod ag eglurder i gwmnïau unigol ac yn galluogi'r cwsmer a'r rheoleiddiwr i gael golwg glir ar berfformiad, gwasanaethau a chostau i gwsmeriaid.

Mae CNC yn croesawu adrodd ariannol gan gwmnïau fel cam a fydd yn rhoi gwell eglurder i gwsmeriaid a rheoleiddwyr ynghylch pa mor effeithlon y mae cwmnïau'n cyflawni eu gwaith ar sail agweddau o'u cynlluniau busnes.

Er mwyn sicrhau y gellir cymharu'r wybodaeth ar draws y sector dŵr, cytunwn mai Ofwat a ddylai bennu ffurf a chynnwys yr adroddiad.

Fel rheoleiddiwr, braf oedd gweld bod y cynigion yn cynnwys adran ar berfformiad. Mae'n bwysig inni allu monitro'r ymrwymadau perfformiad a bennir gan y cwmnïau ar gyfer PR14.

Rydym eisoes yn mynd i'r afael â meincnodi blynyddol; ac er y gallai'r wybodaeth gael ei hailadrodd mewn manau, nid ydym o'r farn y bydd hyn yn rhoi gormod o faich ar gwmnïau. Bydd meincnodi pellach ar gamau eraill, er enghraifft gollyngiadau, yn arwain at allu rheoleiddio'r sector dŵr yn fwy effeithlon, a hefyd bydd yn rhoi gwell eglurder o ran cymharu'r holl gwmnïau ar sail cyflawni canlyniadau penodol a sicrhau bod y cwmnïau'n mynd ar drywydd yr ateb mwyaf cost-effeithiol.

Rydym o'r farn mai cyflwyno'r wybodaeth ar ffurf tabl gyda dangosyddion syml (fel system goleuadau traffig) yw'r ffordd orau o weld i ba raddau y mae'r gwaith wedi'i gyflawni ar sail y

Ffôn/Phone: 02920 466047

Ebost: natalie.hall@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Gwefan: www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Email: natalie.hall@naturalresourceswales.gov.uk

Website: www.naturalresourceswales.gov.uk

Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd,
Caerdydd, CF24 0TP

Cambria House, 29 Newport Road
Cardiff, CF240TP

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

Correspondence welcomed in Welsh and English



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

targedau. Ymhellach, byddai'n ddefnyddiol cyflwyno'r wybodaeth hon ochr yn ochr â pherfformiad hanesyddol, er mwyn gweld a yw'r perfformiad yn gwella. Gan fod yna gysylltiad annatod rhwng nifer o'r camau perfformiad (ond nad yw pob cwmni â'r un camau â'i gilydd), byddai'n ddefnyddiol ategu'r tabl hwn gyda naratif gan y cwmni yn esbonio cydrannau'r tablau. Byddai hyn yn galluogi'r rhanddeiliaid i ddeall y camau a gaiff eu cymryd gan gwmnïau i gyrraedd y targedau y maent wedi'u pennu.

Os hoffech drafod y mater hwn ymhellach, neu os hoffech gael eglurhad o unrhyw beth, mae croeso ichi ffonio Gillian Lennox ar 03000 653834.

Yn gywir

CERI DAVIES

Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio

Ffôn/Phone: 02920 466047
Ebst: natalie.hall@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Gwefan: www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Email: natalie.hall@naturalresourceswales.gov.uk
Website: www.naturalresourceswales.gov.uk

Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd,
Caerdydd, CF24 0TP

Cambria House, 29 Newport Road
Cardiff, CF240TP

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

Correspondence welcomed in Welsh and English